**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich adroddiad ynghylch y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud wrth graffu ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil hwn, a sylwaf ein bod yn rhannu nifer o'r un pryderon.

Rwy'n parhau i gredu y gallai'r Banc chwarae rôl bwysig wrth gynyddu a chyflymu buddsoddiadau i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i sero net. Rydym felly wedi bod wrthi'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau synhwyrol i'r Bil – sef gwelliannau a fyddai'n sicrhau bod datganoli yn cael ei barchu.

Nodaf Gasgliad 1 yn eich Adroddiad, lle rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil cyfan.

Nodaf Gasgliadau 2 a 3 o'ch Adroddiad ac rwyf yn rhannu eich rhwystredigaeth bod y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys cymalau sy'n destun pryder cyfansoddiadol, ac nad oedd pryderon o'r fath, yr oedd modd eu rhagweld, wedi eu datrys yn briodol cyn i'r Bil gael ei gyflwyno yn Senedd y DU.

Nodaf Argymhelliad 1, sy'n gofyn pam nad ydym wedi uwchgyfeirio materion drwy'r strwythurau rhynglywodraethol, gan gynnwys y weithdrefn datrys anghydfodau ddiwygiedig. Ers cyflwyno'r Bil drafft, cafwyd deialog adeiladol â Thrysorlys Ei Fawrhydi ynghylch gwelliannau posibl er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon, ac mae'r ddeialog honno'n parhau. Gyda hynny mewn golwg, ni fu'n rhaid uwchgyfeirio'r materion o dan sylw. Rwy'n rhannu eich rhwystredigaeth nad ydym wedi cyrraedd safbwynt cytûn hyd yma, ond yn ystod y misoedd diwethaf bu ansefydlogrwydd sylweddol yn San Steffan, sydd wedi llesteirio'r cynnydd a wnawn wrth drafod unrhyw gytundeb posibl. Mae'r ansefydlogrwydd hwn wedi arwain at oedi i daith y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin oherwydd y newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogol y DU, a chyhoeddiadau eraill fel Cynllun Twf 2022. Rwy'n deall y bydd y Bil yn awr yn symud ymlaen i'r Cyfnod Pwyllgor ar 22 Tachwedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac i geisio gwelliannau priodol sy'n parchu datganoli.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodaf Argymhellion 2 a 3 o’ch Adroddiad. Gallaf eich sicrhau y bydd unrhyw welliannau i’r Bil yn arwain at Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall a chyfle i’r Pwyllgor graffu ac adrodd ymhellach ar y mater. Rwy’n deall y gallai hyn fod yn rhwystredig, ond gan fod y trafodaethau’n parhau, ar hyn o bryd ni allaf fod yn fwy penodol am union natur y gwelliannau y gellid eu cyflwyno, ac eithrio nodi fy mod i a’m swyddogion wedi mynegi’n glir fod rhaid mynd i’r afael â materion sy’n destun pryder cyfansoddiadol mewn modd sy’n dderbyniol i mi ac, yn y pen draw, i’r Senedd.

Gallaf gadarnhau mai gwelliannau i wyneb y Bil yw’r consesiynau yr ydym yn eu ceisio.

Gallaf gadarnhau hefyd fy mod i, ynghyd â’r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, wedi bod wrthi’n cyfarwyddo trafodaethau â Thrysorlys EF drwy fy swyddogion. Crybwyllais y Bil hefyd yn ystod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 15 Mehefin, pan amlinellais ein pryderon am y Bil wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Gallaf eich sicrhau y byddaf fi yn y pen draw yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch yr hyn sydd i’w argymell i’r Senedd.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government